# DARLLEN
## CB7

Profion Darllen Cenedlaethol

**Enw cyntaf** ______________________

**Cyfenw** ______________________

**Ysgol** ______________________

**Dosbarth** ______________________

**Dyddiad geni** ○○ ○○ ○○○○

**Dyddiad y prawf** ○○ 05 2019

**Cyfanswm y sgôr** ▭ (uchafswm 35)

YSGOL CYMERAU

177576

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cwestiynau ymarfer

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthoch chi beth i'w wneud. I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.**

> Roedd hi'n ddiwrnod y trip a disgyblion Blwyddyn 5 yn barod wrth ddrws yr ysgol.
> "Ar y bws yn drefnus," meddai Mr Elis.
> Roedd Gethin yn teimlo'n llawn cyffro. Eisteddodd yn y sedd flaen a daeth Llew, ei ffrind, i eistedd wrth ei ochr. Erbyn 9 o'r gloch, roedd pawb ar y bws – 29 disgybl a Mr Elis, yr athro.
> Roedd Miss Phillips, gyrrwr y bws, wedi dechrau'r injan pan ddaeth gwaedd o'r cefn.
> "Elin Jones, beth sy'n bod?" holodd Mr Elis.
> "Dw i wedi anghofio fy nghôt law yn yr ysgol," atebodd Elin.
> Yn ffodus, roedd Mrs Owen, y pennaeth, wedi sylwi, a dyma hi'n cyrraedd drws y bws, â chôt Elin yn ei llaw.
> "Hwrê!" gwaeddodd pawb!

**a** Sawl disgybl oedd ar y bws?

Ticiwch **1.** ← Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd ei angen.

26 ☐

27 ☐

28 ☐

29 ☐

**b** **Dewiswch a chopïwch 2** air sy'n dangos sut mae Gethin yn teimlo.

______________________________

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r ateb.

**c** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd Mr Elis yn gyrru'r bws. | | |
| Roedd Gethin yn eistedd wrth ochr Llew. | | |
| Roedd Elin wedi anghofio ei bag. | | |

**ch** Tynnwch **3** llinell i ddangos pwy oedd y cymeriadau yn y darn.

| | |
|---|---|
| Gethin | gyrrwr y bws |
| Miss Phillips | disgybl Blwyddyn 5 |
| Mrs Owen | pennaeth yr ysgol |

**d** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

Awgrym: Gwiriwch sawl gair sydd angen ei danlinellu.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos swydd y person sy'n dal côt Elin.

> "Elin Jones, beth sy'n bod?" holodd Mr Elis. "Dw i wedi anghofio fy nghôt law yn yr ysgol," atebodd Elin. Yn ffodus, roedd Mrs Owen, y pennaeth, wedi sylwi, a dyma hi'n cyrraedd drws y bws, â chôt Elin yn ei llaw.

Awgrym: Os ydych chi'n gwneud camgymeriad ac eisiau newid eich ateb, dylech chi ddileu'r ateb cyntaf yn llwyr cyn tynnu llinell newydd.

**dd** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

YSGOL CYMERAU

| | |
|---|---|
| Elin Jones yn gweiddi | ☐ |
| Mrs Owen yn dal côt Elin | ☐ |
| disgyblion Blwyddyn 5 wrth ddrws yr ysgol | 1 |
| gyrrwr y bws yn dechrau'r injan | ☐ |
| pawb ar y bws | ☐ |

**STOPIWCH**

**Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.**

**Yn y llyfryn hwn mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus CYN dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn yn ofalus CYN ateb y cwestiynau ac yn y blaen.**

**Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, hyd at ddiwedd tudalen 17, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.**

**Mae gennych chi hyd at 60 munud i wneud y prawf.**

# Gwyliau haf, gwyliau braf?

Roedd gwyliau'r haf yn agosáu ond er bod chwe wythnos gyfan heb ysgol o'i flaen, doedd Jac ddim yn edrych ymlaen at y gwyliau eleni. Roedd ei ffrindiau'n siarad yn ddi-baid am y lleoedd gwych roedden nhw'n mynd iddyn nhw – Siôn i Ffrainc, Elin i Lundain, Deio i Fflorida. Roedd Jac yn gwybod na fyddai'n cael mynd i unman.

Roedd ei dad newydd gael newyddion drwg y byddai'n colli ei swydd. Esboniodd ei fam na fydden nhw'n mynd ar eu gwyliau eleni. Roedd Jac wedi gobeithio mynd rhywle i wersylla ond doedd hynny ddim yn debygol nawr.



Teimlai Jac yn ddigalon wrth feddwl am yr wythnosau diflas, digynnwrf a oedd o'i flaen.

Cyrhaeddodd diwrnod olaf y tymor. Mam-gu* ddaeth i gasglu Jac o'r ysgol.

"Reit 'te, Jac, mae gwaith gyda ni i'w wneud! Mae angen mynd trwy'r holl bethau yn y tŷ er mwyn dewis rhai i'w gwerthu yn y sêl cist car ar sgwâr y pentref bore yfory. Ac mae angen rhywun cryf i fy helpu i. Wyt ti'n barod?" holodd Mam-gu.

*Sêl cist car?* meddyliodd Jac yn ddigalon. *Mynd trwy hen bethau Mam-gu? Dyma beth yw dechrau diflas i'r gwyliau!*

Bu'r ddau wrthi am oriau yn llenwi bocsys â phob math o bethau – hetiau, llyfrau, dillad, cylchgronau, tua dwsin o ymbarelau a sawl pâr o sbectol haul – nes bod cist car bach Mam-gu yn llawn hyd yr ymylon.

Erbyn 7 o'r gloch y bore canlynol, roedd Jac, Mam-gu a'r bocsys di-ri ar sgwâr y pentref. Cyn pen dim, roedd y lle dan ei sang. Roedden nhw wedi cael lle da – at eu stondin nhw roedd pawb yn mynd gyntaf. Roedd Jac wrth ei fodd yn taro bargen, yn cymryd arian a chyfrifo newid. Ychydig oriau ar ôl cinio, roedd cist car Mam-gu yn hollol wag.

"Wel!" holodd Mam-gu wrth i Jac gyfri'r ceiniogau olaf. "Faint o arian gawson ni?"



"Wyth deg saith punt, a saith deg wyth ceiniog!" atebodd Jac yn wên o glust i glust.

"Dyna chi," ychwanegodd, gan estyn yr arian i Mam-gu.

"O, na. Fe gei di gadw hwnna," meddai Mam-gu yn gadarn, "am fod yn gymaint o help i dy Fam-gu."

"O, diolch yn fawr," meddai Jac. Gwyddai'n union ar beth y byddai'n gwario'r arian – pabell newydd! Gallai Jac osod y babell yn yr ardd a gofyn i'w ffrindiau ddod draw i aros ynddi gydag e. "Gwyliau yn yr ardd y flwyddyn yma, felly!" meddai Jac yn llawen.

*Mam-gu – Nain

**1** Pwy ddaeth i gasglu Jac o'r ysgol?

Ticiwch **1**.

| | |
|---|---|
| Mam | ☐ |
| Dad | ☐ |
| Mam-gu | ☐ |
| Tad-cu | ☐ |

1 ◯ 1m

**2** Doedd Jac a'i deulu ddim yn mynd ar wyliau oherwydd . . .

Ticiwch **1**.

| | |
|---|---|
| bod y tywydd yn wael. | ☐ |
| bod Dad yn mynd i golli ei swydd. | ☐ |
| bod pasbort Jac ar goll. | ☐ |
| bod Mam-gu yn sâl. | ☐ |

2 ◯ 1m

**3** **Dewiswch** a **chopïwch 2** air sy'n dweud pa mor hir oedd gwyliau haf Jac.

______________________________

3 ◯ 1m

YSGOL CYMERAU

**4** Ble roedd y sêl cist car?

Ticiwch **1**.

| | |
|---|---|
| ar y cae chwarae | ☐ |
| ym maes parcio'r ysgol | ☐ |
| ar sgwâr y pentref | ☐ |
| yn y gwersyll | ☐ |

4 ◯ 1m

**5** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** ansoddair ddefnyddiodd Mam-gu i ddisgrifio Jac.

> "Mae angen mynd trwy'r holl bethau yn y tŷ er mwyn dewis rhai i'w gwerthu yn y sêl cist car ar sgwâr y pentref bore yfory. Ac mae angen rhywun cryf i fy helpu i. Wyt ti'n barod?"

5 ◯ 1m

*trosodd*

CYFANSWM ◯ 5m

**6** Yn ôl y darn, beth oedd ar werth ar stondin Jac a Mam-gu?

Ticiwch **2**.

- hetiau ☐
- teganau ☐
- cylchgronau ☐
- llestri ☐
- esgidiau ☐

6 — 1m

**7** Cafodd popeth ei werthu . . .

Ticiwch **1**.

- cyn cinio. ☐
- ar ôl cinio. ☐
- erbyn hanner dydd. ☐
- erbyn 10 o'r gloch y bore. ☐

7 — 1m

YSGOL CYMERAU

**8** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch** yr ymadrodd sy'n dangos bod llawer o bobl yno.

> . . . roedd Jac, Mam-gu a'r bocsys di-ri ar sgwâr y pentref. Cyn pen dim, roedd y lle dan ei sang.

8 — 1m

**9** Beth roedd Jac yn ei wneud yn y sêl cist car?

Ticiwch **2**.

- prynu pethau ☐
- taro bargen ☐
- sgwrsio â ffrindiau ☐
- cymryd arian ☐
- chwarae gemau ☐

9 — 1m

**10** Yn ôl y darn, beth roedd Jac yn mwynhau ei wneud yn ystod y sêl cist car?

Ticiwch **2.**

- gwerthu pethau ☐
- cario bocsys ☐
- cyfrifo newid ☐
- bwyta cinio ☐
- darllen cylchgronau ☐

10 — 1m

**11** Faint o arian enillodd Jac a Mam-gu yn y sêl cist car?

Ticiwch **1.**

- £82.90 ☐
- £78.75 ☐
- £87.78 ☐
- £84.20 ☐

11 — 1m

**12** Byddai Jac yn gwario'r arian . . .

Ticiwch **1.**

- ar gêm cyfrifiadur newydd. ☐
- ar esgidiau ymarfer newydd. ☐
- ar fynd i barc hamdden. ☐
- ar babell newydd. ☐

12 — 1m

**13** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dweud wrthon ni fod Jac yn hapus.

| "Gwyliau yn yr ardd y flwyddyn yma, felly!" meddai Jac yn llawen. |
|---|

13 — 1m

*trosodd*

CYFANSWM 8m

**14** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Aeth Jac a Mam-gu i'r sêl cist car. | ☐ |
| Rhoddodd Mam-gu yr arian i Jac. | ☐ |
| Roedd gwyliau'r haf yn agosáu. | 1 |
| Aeth Mam-gu i gasglu Jac o'r ysgol. | ☐ |
| Bu Jac a Mam-gu wrthi am oriau yn llenwi bocsys â phob math o bethau. | ☐ |

14

1m

YSGOL CYMERAU

YSGOL CYMERAU

*trosodd*

CYFANSWM

1m

# Gwyliau yn y gwersyll

*Dyma aelodau o fudiad ieuenctid Cymru, sef Urdd Gobaith Cymru, yn sôn am wersylloedd yr Urdd.*




Rydyn ni newydd fod i wersyll **Llangrannog**. Mae'n wych! Dyma oedd gwersyll cyntaf yr Urdd. Mae mewn lle hyfryd ar arfordir Bae Ceredigion yng ngorllewin Cymru.

Mae llawer o weithgareddau yno gan gynnwys sgïo, gwibgartio, saethyddiaeth, beicio cwad, marchogaeth a nofio. Dw i'n eu hoffi nhw i gyd!

Dyma fap sy'n dangos lleoliadau'r gwersylloedd.







Dw i'n hoffi gwersyll **Glan-llyn**. Mae'n ganolfan awyr agored ar lan Llyn Tegid ger y Bala. Mae'r gweithgareddau yno yn niferus ac yn cynnwys cwrs rhaffau, dringo, cerdded afon, cyfeiriannu a bowlio deg. Hefyd, oherwydd bod y ganolfan ger y llyn, mae'n gallu cynnig chwaraeon dŵr fel canŵio a hwylio. Fy hoff weithgareddau i yno oedd bowlio deg a chanŵio ar y llyn – fe wnes i fwynhau cael fy ngwlychu ar y llyn!




Hen adeilad o oes y Tuduriaid sydd yng Nghanolfan **Pentre Ifan** ac mae'n cael ei ddefnyddio fel canolfan i astudio'r amgylchedd. Mae'n agos iawn at fynyddoedd y Preseli, ac mae tir amaethyddol a choedwigoedd naturiol o'i chwmpas.

Dw i'n hoffi dod yma i astudio'r bywyd gwyllt. Mae'n lle gwych i wylio adar!




Mae gwersyll pedair seren **Caerdydd** wedi'i leoli ym Mae Caerdydd, gyferbyn â'r Senedd.

Mae'r lleoliad yn wych os ydych chi eisiau mynd i weld rhai o atyniadau mwyaf poblogaidd y brifddinas. Mae tîm y gwersyll yn barod i drefnu gweithgareddau mewn lleoedd fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r stadiwm cenedlaethol. Es i a fy ffrindiau ar daith cwch hyfryd o gwmpas y bae ac i fowlio deg mewn canolfan gerllaw. Dyna oedd gwyliau ardderchog!

| Gwersyll | Dyddiad agor y gwersyll | Nifer o bobl all gysgu yno | Cyfleusterau |
|---|---|---|---|
| Gwersyll Llangrannog | 1932 | 450 | blociau cysgu, neuadd fwyta, naw lolfa |
| Gwersyll Glan-llyn | 1950 | 250 | 55 ystafell wely, neuadd fwyta, lolfa i bob bloc cysgu,10 ystafell gyfarfod |
| Gwersyll Caerdydd | 2004 | 153 | ystafelloedd gwely pedair seren, neuadd fwyta, lolfa, ystafelloedd cyfarfod |
| Canolfan Pentre Ifan | 1992 | 18 | tair ystafell wely, neuadd, cegin |

**1** Beth oedd enw gwersyll cyntaf yr Urdd?

Ticiwch **1**.

- Gwersyll Caerdydd ☐
- Gwersyll Glan-llyn ☐
- Gwersyll Llangrannog ☐
- Canolfan Pentre Ifan ☐

1 1m

**2** Yn ôl y darn, pa **2** o'r gweithgareddau hyn sydd ar gael yng Ngwersyll Glan-llyn?

Ticiwch **2**.

- gwibgartio ☐
- hwylio ☐
- gwylio adar ☐
- marchogaeth ☐
- cyfeiriannu ☐
- beicio cwad ☐

2 1m

YSGOL CYMERAU

**3** Edrychwch ar y testun eto.
Defnyddiwch y map sy'n dangos lleoliadau'r gwersylloedd.
Labelwch bob saeth i ddangos ble gallwch chi wneud y gweithgareddau hyn.

**A** – marchogaeth

**B** – cerdded afon

**C** – taith cwch

**Ch** – astudio bywyd gwyllt




3 1m

*trosodd*

CYFANSWM 3m

**4** Pam mae'r wybodaeth wedi'i rhoi mewn tabl ar waelod y testun?

Ticiwch **1**.

- Er mwyn peidio gorfod ysgrifennu'r wybodaeth. ☐
- Er mwyn dangos mai dim ond pedwar gwersyll sydd. ☐
- Er mwyn dangos ble mae'r gwersylloedd. ☐
- Er mwyn cymharu gwybodaeth am y gwersylloedd. ☐

4 — 1m

**5** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae Gwersyll Glan-llyn wedi'i leoli ar lan Llyn Tegid ger y Bala. | | |
| Agorwyd Canolfan Pentre Ifan cyn Gwersyll Llangrannog. | | |
| Gallwch wylio adar yng Nghanolfan Pentre Ifan. | | |
| Gwersyll Glan-llyn sy'n gallu derbyn y nifer fwyaf o bobl i gysgu yno. | | |
| Agorwyd Gwersyll Caerdydd yn 2004. | | |

YSGOL CYMERAU

5 — 2m

**6** Ym mha **2** wersyll y gallwch chi gael cyfle i fowlio deg?

Ticiwch **2**.

- Gwersyll Glan-llyn ☐
- Canolfan Pentre Ifan ☐
- Gwersyll Caerdydd ☐
- Gwersyll Llangrannog ☐

6 — 1m

**7** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r gwersyll â'r gweithgaredd cywir.

| | |
|---|---|
| Canolfan Pentre Ifan • | • sgïo |
| Gwersyll Caerdydd • | • astudio bywyd gwyllt |
| Gwersyll Glan-llyn • | • gweld atyniadau'r brifddinas |
| Gwersyll Llangrannog • | • dringo |

7 — 1m

**8** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos bod llawer o weithgareddau gwahanol yng Ngwersyll Glan-llyn.

| |
|---|
| Mae'r gweithgareddau yno yn niferus ac yn cynnwys cwrs rhaffau, dringo, cerdded afon, cyfeiriannu a bowlio deg. Hefyd, oherwydd bod y ganolfan ger y llyn, mae'n gallu cynnig chwaraeon dŵr fel canŵio a hwylio. |

8 1m

**9** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch** yr ansoddair sy'n dangos bod Dafydd wedi mwynhau'r gwyliau yn y gwersyll.

| |
|---|
| Es i a fy ffrindiau ar daith cwch hyfryd o gwmpas y bae ac i fowlio deg mewn canolfan gerllaw. Dyna oedd gwyliau ardderchog! |

9 1m

YSGOL CYMERAU

**10** Pam mae'r darn yn cynnwys Elen, Steffan, Mari a Dafydd yn sôn am y gwersylloedd?

Ticiwch **1**.

Er mwyn cael clywed beth wnaethon nhw ddim ei fwynhau. ☐
Er mwyn darganfod pa wersyll yw'r gorau. ☐
Er mwyn cael clywed eu barn am y gwersylloedd. ☐
Er mwyn darganfod pa wersyll yw'r mwyaf. ☐

10 1m

*trosodd*

CYFANSWM 8m

# Teithio i'r gofod

**A hoffech chi wyliau yn y gofod?**

Yn y dyfodol agos, bydd mwy o bobl yn gallu mynd ar wyliau i'r gofod gyda chwmnïoedd preifat. Bydd y tocynnau teithio'n ddrud iawn, gyda rhai tocynnau yn costio hyd at 20 miliwn o ddoleri. Yn 2001, biliwnydd o'r enw Dennis Tito o America oedd y person cyntaf i dalu am gael gwneud hyn. Dyma oedd dechrau 'gofod-dwristiaeth' yn ôl rhai pobl.

Heb arian mawr yn y banc, yr agosaf y gallwn ni ei gael at wyliau yn y gofod yw'r profiad yng nghanolfan ofod Kennedy, yn America. Yno, yn yr ardd rocedi, mae arddangosfeydd fideo ac fe gewch gipolwg ar y dyfodol ar blaned Mawrth.

**Ffeithiau am deithio i'r gofod**

- Aeth yr anifail cyntaf i'r gofod yn 1957 – ci o'r enw Laika.
- Yuri Gagarin oedd y dyn cyntaf i fynd i'r gofod, yn 1961.
- Vostok 1 oedd enw roced Yuri Gagarin.
- Yn 1969, cerddodd gofodwyr ar y lleuad am y tro cyntaf.

**Gofodwyr**

Mae'r mwyafrif o bobl sy'n teithio i'r gofod yn mynd yno i weithio ar orsaf ofod, ac roedd y Prydeiniwr Tim Peake yn un o'r rhain. Treuliodd Tim 168 o ddiwrnodau yn yr orsaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ym mis Ebrill 2016, rhedodd Tim farathon ar beiriant rhedeg yn y gofod a rhedodd yr un pryd â rhedwyr marathon Llundain yn ôl ar y Ddaear. Cymerodd 3 awr, 35 munud a 21 eiliad i wneud hynny. Dyna gamp arbennig.

**Y Gymraeg a'r gofod**

Mae recordiau yn teithio drwy'r gofod ar hyn o bryd ar fwrdd llongau gofod Voyager 1 a 2. Ar y recordiau hyn mae lluniau a sain i ddangos bywyd ar y Ddaear. Mae 56 iaith i'w clywed ar y recordiau, a'r Gymraeg yn un ohonyn nhw. Os oes bywyd ar blaned arall, bydd y creaduriaid hynny'n cael cyfle i glywed y Gymraeg, efallai! Cafodd y ddwy long ofod eu lansio ym mis Awst a mis Medi 1977.

**HiRISE Cymru (NASA) - 1 Chwefror**
Safle glanio posib Taith 2020 - ushirise.org/cy
#Mawrth#gwyddoniaeth



1 1

*NASA yn trydar yn Gymraeg i ddangos lluniau o'r blaned Mawrth.*

Ers 2015, mae NASA, adran ofod America, wedi cynnwys y Gymraeg fel un o'r dewisiadau iaith ar eu gwefan. Yno, maen nhw'n rhannu lluniau o'r blaned Mawrth. Mae gan NASA gyfrif Twitter Cymraeg, sydd hefyd i'w weld ar eu gwefan www.nasa.gov.
Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y gofod, gallwch ymweld â gwefan www.nasa.gov.

(1) Yn ôl y darn, faint allai tocyn teithio i'r gofod ei gostio?

Ticiwch **1**.

20 mil o ddoleri ☐
20 miliwn o ddoleri ☐
30 miliwn o ddoleri ☐
40 mil o ddoleri ☐

1 — 1m

(2) **Dewiswch** a **chopïwch** enw'r person cyntaf i dalu am fynd ar wyliau i'r gofod.

______________________________

2 — 1m

(3) Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r dyddiadau â'r ffeithiau am ymwelwyr â'r gofod.

| | |
|---|---|
| Yn 1957 | aeth Yuri Gagarin i'r gofod. |
| Yn 1961 | aeth yr anifail cyntaf i'r gofod. |
| Yn 1969 | cerddodd gofodwyr ar y lleuad. |

YSGOL CYMERAU

3 — 1m

(4) Wrth ddisgrifio Tim Peake yn rhedeg pellter marathon yn y gofod, mae awdur y darn yn dweud ei fod wedi gwneud camp arbennig. Pam?

Ticiwch **1**.

Mae'r awdur eisiau rhedeg marathon yn y gofod hefyd. ☐
Mae'r awdur yn siomedig gydag ymdrech Tim. ☐
Mae'r awdur wedi rhedeg marathon. ☐
Mae'r awdur yn meddwl bod Tim wedi gwneud rhywbeth gwych. ☐

4 — 1m

*trosodd*

CYFANSWM — 4m

**5** Dyma gopi o'r testun.
Labelwch bob saeth i ddangos beth yw pwrpas pob rhan o'r testun.

**A** – teitl

**B** – hanes y Gymraeg yn y gofod

**C** – NASA yn trydar

**Ch** – ffeithiau am deithwyr i'r gofod



**Teithio i'r gofod**

**A hoffech chi wyliau yn y gofod?**

Yn y dyfodol agos, bydd mwy o bobl yn gallu mynd ar wyliau i'r gofod gyda chwmnïoedd preifat. Bydd y tocynnau teithio'n ddrud iawn, gyda rhai tocynnau yn costio hyd at 20 miliwn o ddoleri. Yn 2001, biliwnydd o'r enw Dennis Tito o America oedd y person cyntaf i dalu am gael gwneud hyn. Dyma oedd dechrau 'gofod-dwristiaeth' yn ôl rhai pobl.

Heb arian mawr yn y banc, yr [illegible] dyfodol ar blaned Mawrth.

**Ffeithiau am deithio i'r gofod**

- Aeth yr anifail cyntaf i'r gofod yn 1957 – ci o'r enw Laika.
- Yuri Gagarin oedd y dyn cyntaf i fynd i'r gofod, yn 1961
- [illegible]
- [illegible]

**Gofodwyr**

[illegible] sy'n [illegible] Peake yn [illegible] yn y gofod a [illegible] yn ôl ar y Ddaear. Cymerodd 3 awr, 35 munud a 21 eiliad i wneud [illegible]

**Y Gymraeg a'r gofod**

[illegible] bryd [illegible] Voyager 1 a 2. [illegible] y Ddaear. [illegible] y recordiau, a'r Gymraeg yn un ohonyn nhw. Os oes bywyd ar blaned arall, bydd y creaduriaid hynny'n cael cyfle i glywed y Gymraeg, efallai! Cafodd y ddwy long ofod eu lansio ym mis Awst a mis Medi 1977.

HiRISE Cymru (NASA) · 1 Chwefror [illegible]

Ers 2015, mae NASA, adran ofod America, wedi cynnwys y Gymraeg fel un o'r dewisiadau iaith ar eu gwefan. Yno, maen nhw'n rhannu lluniau o'r blaned Mawrth. Mae gan NASA gyfrif Twitter Cymraeg, sydd hefyd i'w weld ar eu gwefan www.nasa.gov.
Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y gofod, gallwch ymweld â gwefan www.nasa.gov.

5 1m

YSGOL CYMERAU

**6** Pwy deithiodd i'r gofod yn 1961?

Ticiwch **1**.

Yuri Gagarin ☐
Tim Peake ☐
Laika ☐
Dennis Tito ☐

6 1m

**7** Cerddodd gofodwyr ar y lleuad am y tro cyntaf yn . . .

Ticiwch **1**.

1957. ☐
1961. ☐
1969. ☐
2001. ☐

7 1m

8 **Dewiswch** a **chopïwch** is-bennawd sy'n cynnwys cwestiwn.

______________________________

8 ◯ 1m

9 Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r isod.

| | |
|---|---|
| Vostok 1 | Yma, mae arddangosfeydd fideo. |
| Tim Peake | Enw roced Yuri Gagarin. |
| Dennis Tito | Treuliodd amser yn yr orsaf ofod. |
| yr ardd rocedi | Y gofod-dwrist cyntaf. |

9 ◯ 1m

10 Pa fanylion sydd wedi'u nodi i gael rhagor o wybodaeth am y gofod oddi wrth adran ofod America?

Ticiwch **1**.

e-bost ☐
gwefan ☐
rhif ffôn ☐
cyfeiriad ☐

10 ◯ 1m

YSGOL CYMERAU

**Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.**

CYFANSWM ◯ 6m

YSGOL CYMERAU

YSGOL CYMERAU

**Diolchiadau**

'Gwyliau haf, gwyliau braf?' addaswyd o 'Gwyliau Mei' gan Mared Llwyd yn *Beth am Stori?*
(Y Lolfa, 2014) ISBN: 9781847718563

Mae'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y prawf hwn at ddibenion yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2019